Coetir Anian

Cambrian Wildwood

Gwanwyn/Haf 2026

Beth yw'r hanes ym Mwlch Corog?

Cydweithrediad gwirfoddolwyr | Diweddariadau cyllid | Digwyddiadau sydd ar ddod

Cyflwyniad Coetir Anian

Adfer Cynefinoedd a Rhywogaethau; Cysylltu Pobl â Natur

Mae Coetir Anian yn elusen adfer natur yng Nghanolbarth Cymru, sy'n gweithio i ddod â bywyd gwyllt a thirweddau gwyllt yn ôl yn fyw. Ers 2017, rydym wedi bod yn geidwaid Bwlch Corog, 142 hectar o dir ym mhentrefan Glaspwll ger Machynlleth, lle rydym yn adfer mosaig gyfoethog o gynefinoedd gan gynnwys coetir brodorol, mawndir, rhostir a glaswelltir cyfoethog o rywogaethau. Mae ein gwaith yn canolbwyntio ar helpu prosesau naturiol i ymadfer – gwella bioamrywiaeth, cefnogi dychweliad planhigion ac anifeiliaid, a meithrin gwydnwch i newid hinsawdd trwy adferiad hirdymor ar raddfa dirwedd.

Mae Bwlch Corog yng ngogledd sir Geredigion, yn nalgylch Afon Dyfi, ac yng nghanol y fro Gymraeg. Rydym yn ymdrechu i integreiddio a pharchu treftadaeth naturiol, ddiwylliannol ac ieithyddol y tir hwn a'r dirwedd ehangach, ym mhob agwedd ar ein gwaith.

Delwedd y clawr: Gwirfoddolwyr Cadwraeth Aberystwyth a Dinas Noddfa Wolverhampton yn ymuno ag un o'n diwrnodau gwirfoddoli

Yn ogystal â rheoli Bwlch Corog, rydym yn cydweithio â ffermwyr, tirfeddianwyr a sefydliadau partner cyfagos gyda'r nod o greu cynefinoedd cydgysylltiedig ar draws y dirwedd ehangach a chefnogi ffermio cynaliadwy.

Mae cysylltu pobl â natur wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn cynnal ystod eang o weithgareddau, gan gynnwys rhaglenni cyswllt natur, diwrnodau gwaith gwirfoddol, cyrsiau hyfforddi ac ymweliadau addysgol – gan alluogi pobl o bob oed a chynifer o gefndiroedd â phosibl i ymgysylltu â'r byd naturiol a dysgu ohono. Rydym yn gweithio gydag ysgolion lleol, awdurdodau lleol ac elusennau eraill i ddod â phobl i dreulio amser ym myd natur – yn aml pobl sy'n cael anhawster i gyrraedd lleoedd gwyllt, ac sydd â'r mwyaf i'w ennill o adeiladu cysylltiad â natur. Trwy'r gwaith hwn, ein nod nid yn unig yw adfer natur ym Mwlch Corog, ond i ysbrydoli dealltwriaeth ddyfnach a gofal am y tirweddau o'n cwmpas.

Am wybodaeth am Coetir Anian, gan gynnwys pwy ydym ni, manylion am y tir, ymweld, gwirfoddoli a digwyddiadau, ewch i coetiranian.org.
Gellir cysylltu drwy ebostio post@coetiranian.org.

Gair gan ein Cyfarwyddwr

Mae'n wanwyn eto, ac mae Bwlch Corog unwaith eto'n fyw gyda chân adar mudol sydd wedi ymuno â ni am eu tymor nythu. Mae gennym ni - ymhlith eraill - y gwybedog brith, y tingoch a thelor y coed yn ein goedwig law dymherus, yn ogystal â'r eiconig gog. Mae'r gwanwyn yma bob amser ychydig wythnosau y tu ôl i'r dyffryndir is gerllaw, ac mae clychau'r gog yn ein coetiroedd ond yn awr wedi dechrau blodeuo ar ddechrau mis Mai. Mai a Mehefin yw'r misoedd hyfrytaf ym Mwlch Corog, ac mae gennym ni ambell ddigwydd ar y gweill, felly dewch i ymuno os gallwch chi! Dilynir ein Diwrnod Agored blynyddol ym mis Mehefin gan ddigwyddiad adnabod natur ym mis Gorffennaf. Heb sôn am ein diwrnodau gwirfoddoli rheolaidd ddwywaith y mis a'n diwrnodau gweithgareddau tymhorol i blant a phobl ifanc. Manylion pellach yn ddiweddarach yn y cylchlythyr!

Dros y gaeaf llwyddom i fwrw ymlaen â nifer o dasgau rheoli coetir diolch i brosiect partneriaeth newydd ar gyfer coetiroedd ym Miosffer Dyfi, a ariannwyd gan Gynllun Tirwedd Coedwig Genedlaethol Cymru - mwy am y prosiect hwn yn ddiweddarach yn y cylchlythyr. Un o fy nhasgau i dros y misoedd diwethaf fu edrych ar y posibilrwydd o ailagor llwybr troed hanesyddol o Fwlch Corog i Laspwll, a gobeithiwn gwireddu'r uchelgais hon erbyn yr hydref. Gan barhau ar goetiroedd, mis diwethaf mwynheais i ac aelodau eraill o staff a gwirfoddolwyr Coetir Anian gymryd rhan yng nghynhadledd diwedd prosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd LIFE - cyfle gwych i gwrdd ag eraill sydd hefyd yn gweithio i amddiffyn ac ehangu ein coetiroedd brodorol, ymweld â choetiroedd prydferth yng ngogledd Cymru, ac i rannu ein gwaith ym Mwlch Corog.

Cyfarwyddwr Prosiect
Katy Harris

Esmée Fairbairn FOUNDATION
Garfield Weston FOUNDATION
CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND
Cronfa Treftadaeth Heritage Fund
Mewn Partneriaeth â Llywodraeth Cymru
In Partnership with Welsh Government
thewaterloofoundation

Diolch i'n Contractwyr

Siôn

Fel elusen fach, nid ydym yn gallu gwneud yr holl waith sydd ei angen o fewn y tîm staff bach iawn. Yn aml, rydym yn cyflogi contractwyr allanol, ar gyfer ystod eang o waith - o dorri coed yn ein planhigfa larwydd, i reoli rhedyn gyda cheffyl a rholer neu gyda phladur, i adeiladu'r strwythurau a ddefnyddiwn i gynnal ein rhaglenni cysylltu natur ac amrywiol ddigwyddiadau. Ers mis Rhagfyr, rydym wedi cael cymorth rheolaidd i gynnal ein rhaglenni Ysgolion Cynradd a Llysgenhadon Natur gan Siôn Rickard. Mae Siôn, sy'n wreiddiol o Fetws-y-Coed ond bellach yn byw ym Machynlleth, yn addysgwr a hwylusydd profiadol, sy'n arbenigo mewn addysg awyr agored a chynorthwyo plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae gweithio gyda Siôn wedi rhoi'r gallu inni gynnal ein hamserlen gaeaf brysur o raglenni cyswllt natur ar gyfer disgyblion lleol, gan sicrhau y gellir cynnal sesiynau yn y Gymraeg ac i safon uchel. Diolch, Siôn.

Gwilym Davies

Gyda thristwch mawr y clywsom am farwolaeth Gwilym Davies ym mis Mawrth. Bu Gwilym yn gweithio gyda ni sawl gwaith dros y blynyddoedd, gan wneud atgyweiriadau hanfodol i'r trac sy'n arwain at Fwlch Corog, a thorri llwybrau trwy'r twmpathau o laswellt y gweunydd a'n galluogi i gyrraedd rhannau mwyaf anghysbell y safle. Roeddem yn dal Gwilym mewn parch mawr fel contractwr medrus iawn, ac mae'r aelodau staff a weithiodd gydag ef yn ei gofio fel "caredig, parchus a meddylgar".

Adfer y Tir

Gwirfoddoli’r gaeaf

Mae gwaith ein gwirfoddolwyr gwych yn canolbwyntio'n bennaf ar blannu coed drwy fisoedd y gaeaf. Ond fel y bydd y rhan fwyaf o gefnogwyr yn gwybod erbyn hyn, nid ydym yn plannu niferoedd mawr o goed fel y mae rhai prosiectau'n ei wneud. Ein dull yw plannu niferoedd bach (tua 300 bob blwyddyn), gan ddewis eu lleoliadau'n ofalus iawn, a'u hamddiffyn yn drylwyr rhag gwartheg, ysgyfarnogod, cnofilod a merlod yn cnoi ac yn pori, er mwyn rhoi'r cyfle gorau iddynt oroesi a thyfu'n goed aeddfed. Yna bydd y coed hyn yn dod yn ffynonellau hadau, gan ganiatáu i goetir ledaenu yn yr ardaloedd cywir, a chysgodi a gwanhau’r glaswellt y gweunydd a'r rhedyn sydd wedi dod yn rhy drech ar rai rhannau o'r tir.

Cydweithrediad

Yn ogystal â’n gwirfoddolwyr unigol, mae grwpiau amrywiol wedi ymuno â ni ar ddiwrnodau gwirfoddoli diweddar. Dewisodd aelodau tîm Digidol Cyfoeth Naturiol Cymru dreulio eu diwrnod gwirfoddoli blynyddol gyda ni, mae ein ffrindiau yn Ninas Noddfa Wolverhampton yn parhau i ymweld yn rheolaidd, a chafodd y niferoedd eu hatgyfnerthu ar dri diwrnod plannu coed gan fws mini yn llawn Gwirfoddolwyr Cadwraeth Prifysgol Aberystwyth. Fe wnaethon ni amddiffyn y rhan fwyaf o'r coed a blannwyd gennym ni eleni gyda 'Gwarchodwyr Cactws' - gwarchodwyr coed dur mawr, pigog sy'n atal anifeiliaid rhag dinistrio'r coed ifanc bregus. Maent yn cynnig amddiffyniad rhagorol, a gellir eu hailddefnyddio unwaith y bydd y coed yn ddigon mawr (er y bydd hyn yn cymryd tipyn o flynyddoedd ar rannau mwyaf agored y safle). Ond mae eu symud, eu cydosod a'u gosod yn y ddaear gyda bariau dur yn waith llafur-ddwys, ac rydym yn dibynnu'n fawr ar ein gwirfoddolwyr ar ei gyfer. Mae'r chwistrelliad o egni a brwdfrydedd y mae'r grwpiau hyn yn ei ddwyn yn amhrisiadwy, ac rydym yn hynod ddiolchgar eu bod yn dewis dod i Fwlch Corog dro ar ôl tro yn nhywydd y gaeaf.

Ymddiriedolwyr

Cadeirydd newydd

Ar ôl tymor o dair blynedd fel Cadeirydd bwrdd llywodraethu Coetir Anian, camodd Joe Hope i lawr ym mis Mawrth eleni. Mae'r ymddiriedolwyr a'r staff wedi mynegi diolchgarwch dwfn i Joe am ei waith fel Cadeirydd - nid swydd hawdd, ac un sy'n gwbl wirfoddol. Fodd bynnag, nid yw Joe yn ein gadael ni - mae'n parhau fel ymddiriedolwr, ac mae bellach yn cymryd rôl Cadeirydd y Grŵp Llywio Rheoli Tir - un o sawl gweithgor sy'n cynnwys ymddiriedolwyr a staff. Ef hefyd yw porwr Bwlch Corog a'i gymydog agosaf - mae'n parhau i fod yn rhan fawr o Coetir Anian.

Joe (a Missy)

David

Mae David Bavin, un o saith ymddiriedolwr a ymunodd â bwrdd Coetir Anian yn 2025, yn cymryd lle Joe. Mae David yn wyddonydd cadwraeth rhyngddisgyblaethol sydd â diddordebau mewn cydfodolaeth dynol a bywyd gwyllt, gwrthdaro amgylcheddol, trawsleoliadau bywyd gwyllt, adfer ecosystemau, a dimensiynau dynol cadwraeth natur. Mae David wedi gweithio ar drawsleoliadau cadwraeth ar gyfer amrywiol famaliaid, gan gwmpasu agweddau ecolegol, cymdeithasol a diwylliannol ar eu hadferiad, eu cadwraeth, a'u cydfodolaeth â phobl a bywyd gwyllt arall. Mae'n hwylusydd hyfforddedig, ac ar hyn o bryd mae'n gweithio i ddatrys problemau sy'n gysylltiedig â phobl ac adfer bioamrywiaeth ar brosiect RENEW - partneriaeth rhwng Prifysgol Caerwysg a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Cyllid a Chefnogaeth

Coed Cadw

Fel y bydd llawer o gefnogwyr yn gwybod, nid Coetir Anian sy'n berchen ar Fwlch Corog. Mae'n eiddo i Goed Cadw, ac mae wedi'i brydlesu i ni ar brydles 125 mlynedd. O'r herwydd, mae gennym ni berthynas agos â Choed Cadw, ac maen nhw wedi ein cefnogi mewn gwahanol ffyrdd dros ein hamser yn gofalu am y tir hwn. Dros yr hydref a'r gaeaf, fe wnaethon nhw roi cyllid i ni ar gyfer sawl gweithgaredd.

Llysgenhadon Natur

Yn ystod ein rhaglen Llysgenhadon Natur olaf yn 2025, daeth disgyblion o Ysgol Bro Hyddgen ym Machynlleth, ein hysgol agosaf, i Fwlch Corog am ddiwrnod ysgol llawn bob wythnos am chwe wythnos. Nod y rhaglenni hyn yw dod â manteision treulio amser ym myd natur i bobl ifanc nad oes ganddynt lawer o gyfle i wneud hynny fel arall, neu sy'n profi anawsterau fel gorbryder neu anghenion dysgu ychwanegol sy'n aml yn ei gwneud hi'n anodd iddynt ffynnu mewn ystafell ddosbarth. Yn aml, maent yn gwneud yn dda mewn amgylchedd dysgu awyr agored mwy egnïol. Adeiladodd y grŵp hwn gyfeillgarwch cryf dros y tymor, a gwelodd rhai welliannau sylweddol yn eu lles, fel yr adroddwyd i ni gan weithwyr ieuenctid, athrawon, a'r Llysgenhadon Natur eu hunain. Treuliodd y grŵp eu dyddiau gyda ni yn cymryd rhan mewn gweithgareddau crefft fel gwehyddu, gwneud canhwyllau, coginio dros dân gwersyll ac adeiladu lloches, a gwaith cadwraeth fel plannu hadau grug, clirio mieri a chofnodi coed hynafol, ynghyd â digon o chwarae awyr agored egnïol.

Diwrnodau Allan Gwyllt

Diwrnodau Allan Gwyllt yw ein rhaglen arall ar gyfer pobl ifanc oedran ysgol uwchradd. Cynhelir y dyddiau hyn ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau ysgol, gan roi cyfleoedd i bobl ifanc lleol fynd allan a threulio amser yn chwarae, creu, gwirfoddoli, a bod yn yr awyr agored. Mae llawer o fynychwyr y sesiynau hyn yn angerddol iawn am natur, ac mae ganddynt wybodaeth drawiadol am wahanol agweddau ar y byd naturiol. Rydym yn siŵr y bydd rhai yn mynd ymlaen i fod yn ecolegwyr, rheolwyr tir neu fiolegwyr talentog.

Diwrnodau gwirfoddoli

Mae Coed Cadw hefyd wedi ein cefnogi i gynnal tri o'n diwrnodau gwirfoddol plannu coed y gaeaf hwn, gan dalu cost amser staff, treuliau teithio a'r bisgedi hollbwysig sy'n pweru ein gwirfoddolwyr gweithgar.

Ffilmio

Dros y flwyddyn, mae Coed Cadw yn ymuno â ni sawl gwaith ym Mwlch Corog er mwyn cynhyrchu ffilm fer am ein gwaith, y safle, a sut mae eu cefnogaeth yn ein helpu i gyflawni popeth a wnawn. Bydd y ffilm hon yn cael ei chynhyrchu'n broffesiynol, ac allwn ni ddim aros i'w gweld a'i rhannu.

Rydym yn hynod ddiolchgar i Coed Cadw am eu cefnogaeth barhaus.

COED CADW
WOODLAND
TRUST

Cyllid a Chefnogaeth

Ymgyrchoedd cyllid cyfatebol

Unwaith neu ddwywaith y flwyddyn, rydym yn cymryd rhan mewn ymgyrchoedd arian cyfatebol - digwyddiadau codi arian lle mae rhoddion yn cael eu cyfateb gan noddwr - fel arfer ymddiriedolaeth neu sefydliad elusennol dyngarol neu sy'n rhoi grantiau. I bob pwrpas, mae rhoddion werth ddwywaith cymaint. Felly, er yn llawer o waith i'n staff, mae'r ymgyrchoedd hyn yn cynnig hwb mawr i ni o ran ariannu ein gwaith.

Christmas Challenge

Ym mis Rhagfyr 2025, fe wnaethon ni gymryd rhan yn ymgyrch Big Give, y *Christmas Challenge*. Ymddiriedolaeth elusennol sy'n cynnal ymgyrchoedd arian cyfatebol yw Big Give. Yn ystod yr ymgyrch, fe wnaethon ni apêl i godi £8,000 i ariannu amrywiaeth o wersylloedd a digwyddiadau mewn cydweithrediad ag elusennau eraill sy'n cefnogi teuluoedd ffoaduriaid a phobl sydd ar hyn o bryd yn y system loches. Cafodd yr ymgyrch gefnogaeth anhygoel o dda - gan ragori ar y targed - ac rydyn ni mor ddiolchgar am y gefnogaeth i'r agwedd hon ar ein gwaith o helpu pobl bregus i gysylltu â natur.

Earth Raise

Ym mis Ebrill, fe wnaethon ni gymryd rhan yn yr ymgyrch Big Give, *Earth Raise*. Yn flaenorol, fe'i gelwid yn *Green Match Fund*, ac mae hon yn ymgyrch rydyn ni'n cymryd rhan ynddi bob blwyddyn, gan ei bod hi'n benodol ar gyfer gwaith amgylcheddol. Ein hapêl eleni oedd codi £2,000 (wedi'i ddyblu gydag arian cyfatebol i £4,000) i barhau â'n gwaith o adfer cynefinoedd mawn ucheldir Bwlch Corog. Unwaith eto, cawsom gefnogaeth wych, a chyrhaeddon ni'r targed ychydig dros hanner ffordd drwy'r ymgyrch wythnos o hyd. Diolch yn fawr iawn i bawb a roddodd. Darparwyd yr arian cyfatebol ar gyfer yr apêl hon gan Sefydliad Garfield Weston, ac rydyn ni'n ddiolchgar iawn iddynt.

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Rydym yn hapus iawn i fod wedi cael cyllid gan CGGC ar gyfer prosiect dwy flynedd newydd a fydd yn ein helpu i ddatblygu ein gwaith gyda gwirfoddolwyr. Drwy'r prosiect hwn ein nod yw cynnal mwy o ddiwrnodau gwaith gwirfoddol, datblygu lleoliadau gwirfoddol mwy amrywiol, a gweithio tuag at ein gwobr Buddsoddi mewn Gwirfoddolwyr, a fydd yn ein helpu i adolygu a gwella ein systemau ar gyfer cefnogi a gweithio gyda gwirfoddolwyr.

Cyllid a Chefnogaeth

Cynllun Tirwedd Coedwig Genedlaethol Cymru

Rydym wedi derbyn grant gan Gynllun Tirwedd Coedwig Genedlaethol Cymru (CGC), prosiect partneriaeth ar gyfer coetiroedd yng ngwarchodfa Biosffer Dyfi UNESCO, dan arweiniad Partneriaeth Natur Leol Ceredigion a chefnogaeth Biosffer Dyfi. Rydym yn falch o fod yn rhan ohono. Yn ogystal ag ariannu diwrnodau plannu coed a gwarchodwyr ar gyfer holl lasbrennau'r gaeaf hwn a'r gaeaf nesaf, mae'r grant hwn yn talu am gost prosesu sawl tunnell o bren (sgil-gynnyrch teneuo planhigfa llarwydd Bwlch Corog) yn goed tân gan y contractwr Arwel Evans. Gan ein bod oddi ar y grid, rydym yn dibynnu ar y pren hwn ar gyfer coginio, cynhesu dŵr a chynhesu'r tŷ crwn yn y gaeaf*.

Bydd y grant hwn hefyd yn ariannu cyfran mawr o adferiad llwybr hanesyddol drwy'r coetir hwn, gan gysylltu Bwlch Corog â phentrefan Glaspwll. Bydd gwaith yn dechrau ar gam nesaf y prosiect hwn cyn gynted ag y bydd tymor nythu adar drosodd, gan fod teloriaid coed prin yn nythu gerllaw! Yn ogystal, bydd yn ariannu prosiect celf natur gyda phlant ysgol.

Mae cynllun CGC yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ac yn cael ei reoli a'i ddosbarthu gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru fel rheolwr cynllun Lleoedd Lleol ar gyfer Natur – Cynllun Partneriaethau Natur Lleol. Mae'n brosiect partneriaeth sy'n cynnwys cyllid ar gyfer nifer o safleoedd coetir yn nyffryn Dyfi.

WCVA CGGC

Biosffer Dyfi Biosphere
gwerth y byd - world class by nature

PARTNERIAETHAU NATUR LLEOL
LOCAL NATURE PARTNERSHIPS
CYMRU



*Mae'n werth nodi bod ein holl goed tân yn cael ei sychu dan do am o leiaf ddwy flynedd i sicrhau llosg mor lân â phosibl. Mae'r coed llarwydd anfrodorol yn cael eu torri er mwyn disodli'r blanhigfa â choetir llydanddail brodorol. Dyma oedd yn sefyll ar y safle cyn i'r llarwydd gael ei blannu, a phan fydd yn aeddfed, bydd yn storio llawer mwy o garbon na'r blanhigfa llarwydd, ac yn darparu cynefin ar gyfer ystod llawer ehangach, a mwy o nifer, o fywyd gwyllt.

Beth arall?

Bywyd gwyllt ar gamera

Mae ymdrech gynyddol i fonitro pa anifeiliaid sydd yn bresennol ym Mwlch Corog wedi arwain at gipolygon gwych inni ar ein camerâu bywyd gwyllt o gwmpas y safle. Dros y gaeaf, cawsom nifer o weliadau o feleod coed (gan gynnwys dau gyda'i gilydd!), ysgyfarnogod, llwynogod, moch daear, cesig y ddrycin, ac am y tro cyntaf, ffwlbartiaid!

Bluesky ac X (Twitter gynt)

Rydym wedi penderfynu rhoi'r gorau i bostio ar y platfform cyfryngau cymdeithasol X, ac wedi agor cyfrif ar Bluesky. Dilynwch ni os ydych chi yno!

Digwyddiadau

Mae yna ddau ddigwyddiad ar y gweill ym Mwlch Corog dros yr haf. Nid yw manylion terfynol y ddau wedi'u cadarnhau eto - byddwn eu cyhoeddi i danysgrifwyr e-bost ac ar ein cyfryngau cymdeithasol. Ymunwch os gallwch!

Diwrnod Agored

Bydd ein Diwrnod Agored blynyddol ar ddydd Sadwrn y 6ed o Fehefin eleni. Nid yw'r amserlen wedi'i chwblhau eto, ond bydd taith gerdded adar y goedwig, trip i gwrdd â'r merlod Carneddau, digon o gyfle i siarad â staff Coetir Anian am yr hyn rydym yn ei wneud ym Mwlch Corog a pham, a pherfformiad cerddorol gan Cynefin - y cerddor lleol a'r hanesydd diwylliannol Owen Shiers, y cafodd ei albwm Shimli ei enwebu ar gyfer gwobr Albwm Gwerin y Flwyddyn y DU 2025.

Diwrnod adnabod natur

Ar ddydd Sadwrn Gorffennaf y 4ydd gwahoddwn unrhyw un â diddordeb mewn natur, bywyd gwyllt, ecoleg ag ati i ymuno â ni am ddiwrnod o rannu gwybodaeth. Byddwn yn ymweld â gwahanol rannau o'r safle, gan gofnodi'r bywyd gwyllt a welwn a dysgu o arbenigeddau a diddordebau ein gilydd.

Am ddiweddariadau rheolaidd, ewch i'n gwefan a chofrestrwch i dderbyn y cylchlythyr hwn drwy e-bost ddwywaith y flwyddyn, neu dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol.